



Eich cyf/Your ref P-06-1262  
Ein cyf/Our ref FM -/00394/22

Jack Sargeant MS  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN  
[Deisebau@senedd.cymru](mailto:Deisebau@senedd.cymru)

22 Gorfennaf 2022

Annwyl Jack,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 27 Mai mewn perthynas â deiseb gan Deuluoedd mewn Profedigaeth Covid-19 (Cymru) yn galw am ymchwiliad cyhoeddus i Gymru'n unig i'r pandemig.

Rwy'n deall bod gan lawer o bobl – gan gynnwys aelodau'r grŵp – deimladau cryf am yr ymchwiliad cyhoeddus, ac rwyf wedi cael cyfle i drafod y rhain gydag aelodau'r grŵp ar sawl achlysur.

Rwyf wedi nodi fy rhesymau yn y Cyfarfod Llawn ynghylch pam rwy'n credu mai'r ffordd orau o graffu ar benderfyniadau a wneir yng Nghymru yn ystod y pandemig yw drwy fod yn rhan o ymchwiliad ledled y DU. Ni fu unrhyw gamau pellach ers hynny a fyddai'n fy narbwylllo y dylid ailystyried y penderfyniad hwn.

Yr wyf wedi bod yn rhan o'r camau perthnasol wrth i'r ymchwiliad ledled y DU gael ei sefydlu; yn fwyaf diweddar, ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ynghylch y cylch gorchwyl a gyflwynwyd gan y Farwnes Hallett yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a arweiniodd. Yr oeddwn yn falch o weld ymateb da i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'n bwysig cydnabod bod Gweinidogion yn comisiynu ac yn cytuno ar gylch gorchwyl ymchwiliad cyhoeddus, cyn i'r ymchwiliad ei hun gael ei gynnal yn annibynnol gan y cadeirydd penodedig. Bydd yr ymchwiliad, ar ôl ei sefydlu'n ffurfiol, yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth. Bydd y cadeirydd yn penderfynu sut y caiff yr ymchwiliad ei redeg a natur ei adroddiadau. Mae'r cylch gorchwyl yn eang a bydd yn galluogi craffu priodol ar ddigwyddiadau a phenderfyniadau a wneir yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales](mailto:Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n dal yn bwysig bod yr ymchwiliad i'w weld yng Nghymru ac y dylai tîm yr ymchwiliad ddod i Gymru i gymryd tystiolaeth. Mae'n galonogol bod tîm yr ymchwiliad wedi cynnal ei ddigwyddiadau ymgynghori cyntaf yng Nghymru; bod grŵp Cymru Teuluoedd mewn Profedigaeth Covid-19 dros Gyfiawnder wedi cyfarfod â'r cadeirydd a thîm yr ymchwiliad a bod pobl o sefydliadau ledled Cymru yn cael eu gwahodd i ddigwyddiadau ymgynghori yn y sector. Mae'r ymchwiliad hefyd wedi bod yn ystyried y Gymraeg yn ei waith.

Ym mis Ionawr, darparodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £4.54m dros ddwy flynedd i gefnogi byrddau iechyd ac Uned Gyflawni'r GIG i ddatblygu rhaglen bwysig a chymhleth o waith ymchwiliol i achosion o Covid-19 oedd wedi dal yr haint mewn ysbytai. Dechreuodd y gwaith hwn ar 1 Ebrill a, hyd yma, mae dros 3,000 o ymchwiliadau wedi dechrau.

Roedd sefydlu ymchwiliad yr Alban yn ymrwymiad maniffesto gan Blaid Genedlaethol yr Alban. Nid oes unrhyw arwydd y bydd ymchwiliad ar wahân yn cael ei gynnal yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd.

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

**MARK DRAKEFORD**